Canllawiau ac Adnoddau Trwyddedigion

# Rhestr Wirio Arolygiad Arferol

Gellir defnyddio'r rhestr wirio hon i gynorthwyo trwyddedigion Rhentu Doeth Cymru i gydymffurfio â'r amod trwydded sy'n gofyn am gwblhau ymweliadau arferol ag eiddo a reolir yn ystod cyfnod rhentu.

Mae'r amod trwydded yn ei gwneud yn ofynnol i'r trwyddedai sicrhau yr ymwelir â'r eiddo rhent y mae ganddo gyfrifoldeb rheoli drosto ar adegau priodol a benderfynir gan y trwyddedai, gan ystyried cyflwr yr eiddo a'r risgiau i'r tenantiaid, wrth warchod hawl y tenantiaid i fwynhad didramgwydd, ond mewn unrhyw achos, ni ddylai'r ymweliadau arferol fod yn fwy aml na'r canlynol:

- Yn flynyddol ar gyfer anheddau sy'n cael eu gosod ar gontractau sengl, a thai a rennir ar gontract sengl, gyda'r ymweliad arferol cyntaf yn digwydd o fewn 2-6 mis cyntaf y contract.
- Bob 6 mis ar gyfer Tŷ Amlfeddiannaeth a thai a rennir ar gontractau ar wahân, gyda'r ymweliad arferol cyntaf yn digwydd o fewn 2-6 mis cyntaf y contract.

I gael mwy o wybodaeth am yr amodau a ychwanegir at drwyddedau, gweler y ddogfen math y drwydded ac amodau yma.

Mae ymweliad arferol yn cynnwys gwirio pob rhan o eiddo rhent ac yn cynnig cyfle delfrydol i wirio bod eiddo'n parhau i fod yn rhydd rhag peryglon yn unol â Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022.

Dylid cynnal ymweliadau arferol yn ychwanegol at unrhyw faterion trwsio neu gynnal a chadw y mae'r tenantiaid eisoes wedi'u codi o'r blaen.

Yr arfer gorau yw cynnal ymweliadau arferol gyda'r tenant (deiliad contract) yn bresennol.

Mae'r rhestr wirio hon wedi'i chreu i'ch helpu gyda'r canlynol:

- ✓ Gwirio cyflwr yr eiddo,
- ✓ Nodi unrhyw fater cynnal a chadw sy'n berygl neu a allai fod yn berygl pe'i gadewir,
- ✓ Gwirio bod y landlord/asiant a'r tenant yn cadw at delerau'r contract meddiannaeth,
- ✓ Cofnodi eich canfyddiadau.

| |
|---|
| Os nad oes gennych eich rhestr wirio eich hun, bydd y rhestr wirio hon yn eich tywys drwy'r gwiriadau gofynnol y dylech eu cwblhau yn ystod eich ymweliad arferol, ond gwnewch yn siŵr eich bod yn ei haddasu i weddu i'r eiddo sy'n cael ei wirio. |

| RHESTR WIRIO YMWELIADAU ARFEROL | |
|---|---|
| **Manylion Cyffredinol** | |
| Enw'r Trwyddedai/Aelod o Staff sy'n cynnal yr ymweliad: | Dyddiad yr ymweliad arferol: |
| Cyfeiriad yr eiddo: | Nifer y meddianwyr:<br><br>A oes pryderon gorlenwi Oes ☐ Nac oes ☐<br>*cyfeiriwch at Ran 10 Deddf Tai 1985*<br>Nodiadau: |
| A yw'r tenant (deiliad contract) yn bresennol?<br>Ydy ☐ Nac ydy☐<br>Os ydy, enw'r tenant: | A oes unrhyw anifeiliaid anwes yn byw yn yr eiddo?<br>Oes ☐ Nac oes☐<br>Os oes, rhowch fanylion: |
| **Mynediad** | |
| A oes rhybudd o 24 awr wedi'i roi i'r tenant?<br>Oes ☐ Nac oes☐<br>Os nac oes, rhowch reswm: | Math o rybudd: |
| | A oes cadarnhad o ganiatâd i gael mynediad i'r eiddo wedi'i dderbyn?<br>Oes ☐ Nac oes☐<br>Os nac oes, rhowch fanylion: |
| **Tystysgrifau ac Asesiadau Risg** | |
| Dyddiad y Cofnod Diogelwch Nwy Cyfredol:<br>Boddhaol? Ydy ☐ Nac ydy☐ | Dyddiad yr Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol Cyfredol:<br>Boddhaol? Ydy ☐ Nac ydy☐ |
| Dyddiad yr Asesiad Risg Tân (os yw'n berthnasol): | Dyddiad yr Asesiad Risg Asbestos: |
| Dyddiad gwirio'r gronfa ddata radon: | Sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni Gyfredol:<br>A yw'r sgôr o dan E? Ydy ☐ Nac ydy☐<br>Os ydy, a oes eithriad dilys wedi'i gofrestru? |
| Pryderon radon: | Dyddiad yr asesiad risg Clefyd y Llengfilwyr: |
| Manylion eraill: | |

| Y Rhannau o’r Eiddo a Wiriwyd | | | |
|---|---|---|---|
| ☐ Neuadd | ☐ Lolfa | ☐ Ystafell Fwyta | ☐ Ystafell Amlbwrpas |
| ☐ Cegin / Ystafell Fwyta | ☐ Tŷ Bach | ☐ Ystafell Ymolchi | ☐ Ystafell Wely |
| ☐ Ystafell Wely | ☐ Ystafell Wely | ☐ Y Tu Allan a’r Ardd | |
| Arall: | | | |
| Nodiadau (unrhyw bryderon blaenorol, atgyweiriadau neu waith cynnal a chadw i'w gwirio, pryderon gan y tenant, cyngor a roddwyd i’r tenant) | | | |
| | | | |

| ALLANOL - LLWYBRAU, IERDYDD A GERDDI, AC ATI. | | | |
|---|---|---|---|
| Eitem | Safon ofynnol | Canlyniad | Nodiadau, os yw'n briodol |
| Ffensys, gwrychoedd a waliau gardd | Yn ddiogel, yn gyflawn ac wedi'u cynnal a'u cadw. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Llwybrau a dreifiau | Wedi'u cynnal a'u cadw ac yn wastad, dim palmant wedi'i dorri. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Gorchuddion twll archwilio | Yn ddiogel, heb gracio na'u difrodi. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Draeniau | Dim rhwystrau amlwg na gorlifo diweddar, dim draeniau agored. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Plâu | Dim tystiolaeth o unrhyw blâu, dim croniadau i blâu lochesu ynddynt, dim tyllau o amgylch dwythellau gwasanaeth, pibellau, dim briciau awyr coll. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Sbwriel neu wastraff peryglus | Biniau cywir wedi'u darparu, man storio addas, diogel a hylan, sbwriel a gwastraff peryglus yn cael eu gwaredu'n gywir. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Garej neu borth ceir | Yn rhydd rhag defnyddiau llosgadwy a pheryglon tân. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol<br>☐ Ddim yn berthnasol. | |
| **Sylwadau'r Tenant/Camau sy'n ofynnol:** | | | |

| ADEILAD (ALLANOL) | | | |
|---|---|---|---|
| Eitem | Safon ofynnol | Canlyniad | Nodiadau, os yw'n briodol |
| Golwg gyffredinol | Fel y stocrestr, yn rhydd rhag dadfeilio. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Cyflwr y gwaith pwyntio, rendro a phaentwaith | Yn rhydd rhag craciau a dim tystiolaeth o leithder. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Bondoeau a ffasgia | Yn ddiogel, yn lân, yn gyfan (heb bydru), dim dadfeilio. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| To | Teils a chaeadau plwm yn ddiogel, yn gyfan, dim tyllau i roi mynediad i blâu. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Waliau | Mewn cyflwr da, yn rhydd rhag craciau, dim pwyntio rhydd, yn strwythurol gadarn, dim briciau aer neu griliau awyru coll. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Gwteri a pheipiau dŵr | Yn ddiogel, yn glir, yn gyfan, yn gweithio'n gywir. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Corn simnai | Corn a photiau diogel, mewn cyflwr da, dim pwyntio rhydd, wedi'u glanhau. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol<br>☐ Ddim yn berthnasol | |
| Ffenestri | Yn ddiogel, gellir eu hagor, dim dadfeilio, yn lân, | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Cyntedd neu ganopi'r drws ffrynt | Mewn cyflwr da, yn ddiogel, dim gollyngiadau. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Goleuadau allanol | Yn gweithio'n dda, dim dadfeilio. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | *Yn ddigon i leihau'r perygl o fynediad diawdurdod a chynnal diogelwch* |
| Tai allan a strwythurau allanol | Yn ddiogel ac mewn cyflwr da. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| **Sylwadau'r Tenant/Camau sy'n ofynnol:** | | | |

| DRYSAU A FFENESTRI (ALLANOL A MEWNOL) | | | |
|---|---|---|---|
| Eitem | Safon ofynnol | Canlyniad | Nodiadau, os yw'n briodol |
| Drysau allanol | Wedi'u gosod yn iawn, yn ddiogel, gellir eu hagor a'u cloi, yn gweithio'n dda, wedi'u goleuo'n dda, tyllau ysbïo a chadwyni sy'n gweithio, lle bo'n berthnasol, system ffôn mynediad sy'n gweithio. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | *Yn ogystal, sicrhewch na chynyddir peryglon posibl eraill e.e. drysau a ffenestri wedi'u cloi a'r ffordd o ddianc rhag tân* |
| Drysau | Yn gweithio'n dda, yn cau'n iawn, yr handlenni'n gweithio, y caeadau drws yn gweithio, dim perygl o drapio rhannau o'r corff fel bysedd. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Larwm lladron | Yn gweithio'n gywir. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol<br>☐ Ddim yn berthnasol | *Codau larwm* |
| Ffenestri | Yn gweithio'n dda. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Hollt awyru ar y ffenestri | Yn gweithio'n dda. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Cloeon ffenestri | Allweddi ar gael. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol<br>☐ Ddim yn berthnasol | |
| Cordiau bleindiau ffenestri | Wedi'u sicrhau'n ddiogel. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol<br>☐ Ddim yn berthnasol | |
| **Sylwadau'r Tenant/Camau sy'n ofynnol:** | | | |

| ADEILAD (DIOGELWCH TÂN)<br>**Ar gyfer tai amlfeddiannaeth, mae'r safon sy'n ofynnol yn debygol o fod yn llawer uwch.** | | | |
|---|---|---|---|
| Eitem | Safon ofynnol | Canlyniad | Nodiadau, os yw'n briodol |
| Larymau mwg | Un (o leiaf) ar bob llawr, yn gweithio'n dda, heb eu rhwystro, wedi'u cysylltu â'r cyflenwad trydan a'u cysylltu â'r holl larymau mwg eraill, wedi'u profi. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | Lleoliad a chanlyniad prawf pob larwm. |
| Larwm gwres | Yn gweithio a heb ei rwystro, wedi'i brofi | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol<br>☐ Ddim yn berthnasol | |
| Blancedi tân | Yn sownd i'r wal, yn gyfan. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| System larwm tân | Gwiriad gweledol am unrhyw bryderon. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol<br>☐ Ddim yn berthnasol | |
| Llwybr allanfa i ddianc drwyddo | Yn rhydd rhag rhwystrau a'r holl lwybrau dianc fel drysau a ffenestri yn gweithio'n dda. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Drysau tân | Yn gweithio'n dda, yn cau'n iawn, yr handlenni'n gweithio, y stribedi chwyddedig yn eu lle, y caeadau drws yn gweithio. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol<br>☐ Ddim yn berthnasol | |

**Sylwadau'r Tenant/Camau sy'n ofynnol**

| ADEILAD (MEWNOL) | | | |
|---|---|---|---|
| Eitem | Safon ofynnol | Canlyniad | Nodiadau, os yw'n briodol |
| Golwg gyffredinol | Fel y stocrestr, dim pryderon o ran diffyg lle i'r tenantiaid. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Golau – golau naturiol | Digon o olau naturiol yn ystod y dydd er mwyn cwblhau gweithgareddau domestig a hamdden arferol heb straen ar y llygaid. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Golau – goleuadau artiffisial | Wedi'u lleoli'n gywir ac yn darparu digon o olau er mwyn cwblhau gweithgareddau domestig a hamdden heb straen ar y llygaid a heb greu llacharedd a chysgodion. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Thermostatau gwresogi | Yn gweithio'n dda, yn cael eu rheoli gan y tenantiaid. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Gwres | Yn gweithio'n dda, yn briodol i wresogi'r eiddo, wedi'i osod yn gywir ac yn cael ei gynnal a'i gadw felly, yn cael ei reoli gan y tenantiaid. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | *Dylai systemau gwresogi weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau nad yw'r meddianwyr yn agored i dymheredd oer dan do. Dylid caniatáu i'r meddianwyr reoli'r tymheredd yn eu cartref. Rheolaeth lawn.* |
| Cyflwr yr addurno drwy'r eiddo | Fel y stocrestr, dim dadfeilio, dim paent plwm. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Nenfydau, waliau a lloriau | Dim dadfeilio, dim tystiolaeth o leithder, dim craciau, dim ôl treulio na marciau. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Lloriau a charpedi | Mewn cyflwr da, wedi'u gosod yn ddiogel ac yn wastad, dim estyll llac, na charpedi wedi'u rhwygo. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Ffenestri | Yn gweithio'n dda gan gynnwys handlenni a hollt awyru, yn lân, maint a lleoliad digonol ar gyfer golau naturiol, addas at y diben lle bo lefelau sŵn gormodol y tu allan, dim perygl o gwympo rhwng lefelau, dim perygl o drapio rhannau o'r corff fel bysedd. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Gwaith coed mewnol | Fel y rhestr eiddo, dim dadfeilio. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Grisiau gan gynnwys canllawiau a gwerthydoedd ar risiau | Yn ddiogel ac mewn cyflwr da gyda chanllawiau / canllaw grisiau, lled grisiau cyson a digonol, dim grisiau / codwyr rhydd, dim carped wedi'i rwygo, golau digonol ar ben a gwaelod y grisiau, dim drysau yn agor ar ben y grisiau, gwresogi digonol ym mhob rhan o'r annedd er mwyn osgoi amharu ar symudiad a theimlad.<br>Dylai agoriadau mewn grisiau neu ganllawiau grisiau fod yn llai na 100mm. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol<br>☐ Ddim yn berthnasol | |
| Lleithder a llwydni | Yn rhydd rhag lleithder, llwydni a thwf ffwngaidd. Gwiriadau i gynnwys pob rhan o'r eiddo ond yn benodol ffenestri, seliau, mannau oer, ac ati. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | *Os yn bresennol, ystyriwch unrhyw waith adfer sy'n ofynnol a darparu'r daflen. Dylai unrhyw waith adfer sy'n defnyddio bywleiddiaid gael ei gwblhau'n ddiogel ac yn unol â chanllawiau gwneuthurwr y cynnyrch.* |
| Cyddwysiad | Yn rhydd rhag cyddwysiad. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | *Os yn bresennol, ystyriwch unrhyw waith adfer sy'n ofynnol a darparu'r daflen.* |
| Awyru | Yn ddigon i alluogi aer i gael ei gyfnewid yn ddigonol. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | *Yn ddigon i sicrhau nad yw awyru yn cyfrannu at leithder a thwf llwydni, tymereddau aer dan do rhy uchel, cronni nwy tanwydd heb ei hylosgi, gan gronni cyfansoddion organig anweddol.* |
| Dodrefn ac eitemau dodrefnu (a gyflenwir gan y landlord) | Label diogel o ran matsis a sigaréts wedi'i atodi. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol<br>☐ Ddim yn berthnasol | |
| Asbestos | Mae'r holl ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos wedi'u nodi, mewn cyflwr da, yn rhydd o ddifrod ac yn rhydd rhag y perygl o ddifrod. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol<br>☐ Ddim yn berthnasol | *A yw'r tenant yn ymwybodol o leoliadau asbestos?*<br>*Ydy ☐ Nac ydy ☐*<br>*Rhestrwch leoliad a chyflwr y deunyddiau sy'n cynnwys asbestos:* |
| Lleoedd tân wedi'u blocio | Dim rhwystr i awyrellau | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol<br>☐ Ddim yn berthnasol | |
| Plâu | Dim tystiolaeth o blâu e.e.: tail, marciau cnoi, tyllau. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| **Sylwadau'r Tenant/Camau sy'n ofynnol** | | | |

| CEGIN | | | |
|---|---|---|---|
| Eitem | Safon ofynnol | Canlyniad | Nodiadau, os yw'n briodol |
| Cyflenwi dŵr | Yn gweithio’n dda, cyflenwad digonol o ddŵr poeth ac oer, tymheredd cywir ar gyfer y dŵr poeth, dim pibellau plwm a dim sodr plwm, tanciau storio wedi’u gorchuddio, cyflenwadau dŵr yfed preifat a storir yn cael eu samplu a’u dadansoddi’n rheolaidd. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Sinc cegin | Wedi'i osod yn iawn, dim tolciau na chraciau, wedi'i selio'n iawn, dim lle i ddŵr ddianc rhwng y sinc a’r wyneb gweithio a mesur draenio dŵr gwastraff effeithiol (yn ddelfrydol ni ddylai dŵr poeth fod yn fwy na 60°C mewn ceginau i osgoi sgaldiadau). | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Golau yn y gegin – golau naturiol | Digon o olau naturiol yn ystod y dydd er mwyn cwblhau tasgau domestig arferol heb straen ar y llygaid. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Golau yn y gegin – goleuadau artiffisial | Wedi'u lleoli'n gywir ac yn darparu digon o olau er mwyn cwblhau tasgau domestig heb straen ar y llygaid a heb greu llacharedd a chysgodion, yn enwedig dros gyfleusterau. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Arwynebau gwaith y gegin | Yn ddiogel, yn llyfn, yn anhreiddiadwy, yn ddigonol, gellir eu glanhau, dim dadfeilio, wedi'u selio. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Cynllun y gegin | Ystafell neu ardal wedi'i chynllunio'n briodol er mwyn paratoi a choginio bwyd yn ddiogel ac yn hylan.<br><br>Dylai cynllun/perthynas cyfleusterau hwyluso'r camau paratoi, coginio a gweini ac atal llosgiadau a sgaldiadau. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Cypyrddau / Cyfleusterau storio’r gegin | Yn ddiogel, yn gweithio’n dda, gellir eu glanhau, dim dadfeilio, yn ddigonol ar gyfer nifer y tenantiaid. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflenwad trydanol ar gyfer offer y gegin | Digon o socedi plwg ar gyfer offer hanfodol y gegin fel oergell, rhewgell. O leiaf 4 soced pŵer priodol sy'n gysylltiedig â'r arwynebau gwaith yn ogystal â 2 at ddefnydd cyffredinol. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Offer wedi'u cyflenwi gan y landlord | Yn gweithio'n dda, gellir eu glanhau, llawlyfr defnyddiwr ar gael, wedi cael prawf dyfais gludadwy. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol<br>☐ Ddim yn berthnasol | |
| Ffan echdynnu | Yn gweithio'n dda ac yn rhydd rhag rhwystrau, e.e.: saim | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Ffwrn | Yn gweithio'n dda, gellir ei glanhau, yn ddigonol ar gyfer nifer y meddianwyr, wedi'i lleoli'n ddiogel i ffwrdd o ddeunyddiau fflamadwy. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Cyfleusterau gwaredu gwastraff | Yn ddigonol, yn lân a dim dadfeilio. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Waliau'r gegin | Yn llyfn neu gyda gorffeniad anhreiddiadwy, yn hawdd eu glanhau. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Llawr y gegin | Yn rhesymol lyfn ac yn anhreiddiadwy ar gyfer glanhau hawdd, dylai corneli a chyffyrdd fod wedi'u selio. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Cyfleusterau ar gyfer golchi a sychu dillad | Cyfleusterau priodol ar gyfer golchi a sychu dillad gyda socedi pŵer a mannau awyru cyfagos, a rhaid i unrhyw bwyntiau mewn waliau y mae pibellau gwastraff a draenio, a phibellau eraill ynddynt fod wedi'u selio'n effeithiol. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |

**Sylwadau'r Tenant/Camau sy'n ofynnol:**

| YSTAFELLOEDD YMOLCHI AC EN-SUITE | | | |
|---|---|---|---|
| Eitem | Safon ofynnol | Canlyniad | Nodiadau, os yw'n briodol |
| Cyfleusterau ystafell ymolchi | Yn gweithio’n dda ac yn ddiogel, yn ddigonol ar gyfer nifer y meddianwyr, yn breifat (gellir cloi’r drws ond ei agor mewn argyfwng), golau, gwresogi ac awyru digonol a rhaid i unrhyw bwyntiau mewn waliau y mae pibellau gwastraff a draenio, a phibellau eraill ynddynt fod wedi’u selio'n effeithiol. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Basn golchi dwylo a thapiau | Yn ddiogel, yn gweithio’n dda, cyflenwad digonol o ddŵr poeth ac oer, tymheredd cywir ar gyfer y dŵr poeth, yn rhydd rhag dadfeilio, mesur draenio dŵr gwastraff effeithiol (yn ddelfrydol ni ddylai dŵr poeth fod yn fwy na 41 °C ar gyfer basnau golchi dwylo er mwyn osgoi sgaldiadau). | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Tŷ Bach | Yn ddiogel, wedi'i gysylltu â system fflysio a system ddraenio sy'n gweithio'n iawn, yn gweithio’n dda, yn rhydd rhag dadfeilio, sêl ddwrglos effeithiol. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Bath | Yn ddiogel, yn gweithio’n dda, cyflenwad digonol o ddŵr poeth ac oer, tymheredd cywir ar gyfer y dŵr poeth, yn rhydd rhag dadfeilio, mesur draenio dŵr gwastraff effeithiol (yn ddelfrydol ni ddylai dŵr poeth fod yn fwy na 46 °C ar gyfer bath). | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol<br>☐ Ddim yn berthnasol | |
| Cawod | Yn ddiogel, yn gweithio’n dda, cyflenwad digonol o ddŵr poeth ac oer, tymheredd cywir ar gyfer y dŵr poeth, yn rhydd rhag dadfeilio, mesur draenio dŵr gwastraff effeithiol. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol<br>☐ Ddim yn berthnasol | |
| Ffan echdynnu | Yn gweithio'n dda, yn rhydd rhag dadfeilio a llwch, wedi'i selio'n effeithiol. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| **Sylwadau’r Tenant/Camau sy’n ofynnol:** | | | |

| DIOGELWCH TRYDANOL | | | |
|---|---|---|---|
| Eitem | Safon ofynnol | Canlyniad | Nodiadau, os yw'n briodol |
| Gwifrau | Gwiriad gweledol, dim difrod/dadfeilio, dim gwifrau rhydd neu agored. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Socedi plwg | Gwiriad gweledol, yn gweithio'n dda, yn ddigonol ar gyfer nifer y tenantiaid, dim difrod/dadfeilio, dim gwifrau rhydd nac agored. Dim tystiolaeth o graciau, marciau llosgi, difrod. Dim gorlwytho socedi. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Gwifrau ymestyn | Heb eu gorlwytho/dim cysylltu mwy nag un addasydd trydan at ei gilydd. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol<br>☐ Ddim yn berthnasol | |
| Switshis goleuadau | Yn gweithio'n dda, mewn lleoliad y gellir ei gyrraedd, dim tystiolaeth o dadfeilio/difrod. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Gosodiadau pendant a golau | Yn gweithio'n dda. Dim tystiolaeth o ddadfeilio/difrod na chraciau. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | |
| Offer a gyflenwir gan y landlord | Gwiriad gweledol a / neu brawf dyfais gludadwy.<br><br>Yn gweithio'n dda, dim difrod/dadfeilio, dim gwifrau rhydd nac agored. Dim tystiolaeth o graciau, marciau llosgi, difrod. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol<br>☐ Ddim yn berthnasol | *Rhestrwch yr holl offer a gyflenwyd ac a wiriwyd:* |

**Sylwadau'r Tenant/Camau sy'n ofynnol:**

| CARBON MONOCSID A CHYNHYRCHION HYLOSGI TANWYDD | | | |
|---|---|---|---|
| Eitem | Safon ofynnol | Canlyniad | Nodiadau, os yw'n briodol |
| Boeler | Gwiriad gweledol, yn gweithio’n dda, dim gollyngiadau, dim rhwystrau i ffliw(iau), wedi'i awyru'n iawn, dim tystiolaeth o hylosgi anghyflawn, lefel y pwysau o fewn yr ystod a ganiateir.<br><br>Cofnod Diogelwch Nwy Blynyddol yn gyflawn ac yn foddhaol. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol<br>☐ Ddim yn berthnasol | *Lleoliad:* |
| Unrhyw offer hylosgi nwy/tanwydd | Gwiriad gweledol, yn gweithio’n dda, dim gollyngiadau, dim rhwystrau i ffliwiau a ffaniau echdynnu, dim tystiolaeth o hylosgi anghyflawn, wedi'u hawyru'n iawn (gofynion penodol ar gyfer nwy petrolewm hylifedig gan gynnwys awyru lefel isel), wedi'u gwarchod yn ddigonol.<br><br>Cofnod Diogelwch Nwy Blynyddol yn gyflawn ac yn foddhaol. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | *Lleoliad:* |
| Synwyryddion carbon monocsid | Wedi’u gosod ym mhob ystafell gydag offer nwy, olew neu danwydd solet. Wedi'u lleoli'n gywir, wedi’u profi ac yn gyfredol. | ☐ Anfoddhaol<br>☐ Boddhaol | *Lleoliad a dyddiad dod i ben pob larwm carbon monocsid.* |
| **Sylwadau’r Tenant/Camau sy’n ofynnol:** | | | |

| Gwiriadau Defnydd o'r Eiddo | |
|---|---|
| A oes tystiolaeth o ysmygu<br>Oes ☐ Nac oes☐<br>Nodiadau: | A oes tystiolaeth o nifer gormodol o ymwelwyr<br>Oes ☐ Nac os☐<br>Nodiadau: |
| A oes tystiolaeth o is-osod neu feddiannu anawdurdodedig, *(e.e.: eiddo gormodol neu bost a gyfeirir at unrhyw un ac eithrio'r tenantiaid presennol neu'r tenantiaid blaenorol)*<br>Oes ☐ Nac oes☐<br>Nodiadau: | A oes tystiolaeth o anifeiliaid anwes anawdurdodedig, *(e.e.: gwallt, pethau ac arogleuon anifeiliaid)*<br>Oes ☐ Nac oes☐<br>Nodiadau: |
| A oes tystiolaeth o ddefnyddio sylweddau anghyfreithlon<br>Oes ☐ Nac oes☐<br>Nodiadau: | A oes tystiolaeth o addurno anawdurdodedig<br>Oes ☐ Nac oes☐<br>Nodiadau: |
| A oes tystiolaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol<br>Oes ☐ Nac oes☐<br>Nodiadau: | A oes tystiolaeth o symud nwyddau'r Landlord<br>Oes ☐ Nac oes☐<br>Nodiadau: |
| A oes tystiolaeth o lendid gwael<br>Oes ☐ Nac oes☐<br>Nodiadau: | A yw'r tenantiaid yn ymwybodol o ddiwrnodau casglu sbwriel/ailgylchu?<br>Ydyn ☐ Nac ydyn☐<br>Nodiadau: |
| Os nad yw'r eiddo'n cael ei wasanaethu gan y prif gyfleustodau, e.e. nwy, dŵr, carthffosiaeth ac ati?<br><br>Os nad yw'r eiddo yn cael ei wasanaethu gan garthffosiaeth y prif gyflenwad, a yw'r tenant yn gwybod pryd mae angen gwagio'r carthbyllau?<br>Ydy ☐ Nac ydy☐<br>Nodiadau:<br><br>Os nad yw'r eiddo yn cael ei wasanaethu gan nwy/trydan y prif gyflenwad, a yw'r tenant yn storio nwy/olew yn gywir ac yn gwybod pryd mae angen ei ail-lenwi, e.e. nwy petrolewm hylifedig.<br>Ydy ☐ Nac ydy☐<br>Nodiadau: | Peryglon posibl eraill fel y disgrifir yn y contract meddiannaeth: |

| Crynodeb o'r pryderon a fynegwyd gan gynnwys argymhellion a roddwyd i'r tenant / y camau gweithredu ar gyfer yr asiant / landlord |
| --- |
| A gafodd ffotograffau eu tynnu (gan sicrhau nad oes modd gweld unrhyw eiddo personol, heb y caniatâd angenrheidiol) Do ☐ Naddo ☐ |
| |

| Llofnod | |
| --- | --- |
| Tenant (deiliad contract): | Dyddiad: |
| Trwyddedai/Cynrychiolydd y Trwyddedai: | Dyddiad: |